Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf

26/08/2026

09:00 – 13:00

Lleoliad: Llys Cadwyn

Yn bresennol

James Price (Cadeirydd), Heather Clash, Alexia Course, Marie Daly, Jan Chaudhry Van der Velde, Julian Edwards, Peter Strachan

Hefyd yn bresennol

Sam Hadley, Lorenzo Visentin, Jeremy Morgan (Llywodraethu)

1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm

Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datgan bod y cyfarfod yn agored.

1c. Datgan Buddiant

1.d Cofnodion Blaenorol

Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod blaenorol, yn amodol ar y gwelliannau.

2. Sylw i ddiogelwch

[redacted]

3. Sylw i gwsmeriaid

Ystyriodd y Bwrdd berfformiad mewn perthynas â phrofiad cwsmeriaid, a nododd fod lefelau boddhad cyffredinol yn parhau'n uchel, er gwaethaf heriau gweithredol sylweddol. Nododd yr aelodau'r angen i barhau i wella dibynadwyedd a chysondeb y gwasanaethau, gan gydnabod bod hyder cwsmeriaid yn cael ei ddylanwadu'n gryf gan achosion o darfu dros ar ôl tro, argaeledd trenau ac ansawdd gwasanaethau.

4. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau

Trafododd y Bwrdd y perfformiad gweithredol yn ystod cyfnod a effeithiwyd gan dywydd poeth parhaus, yn ogystal â methiannau seilwaith a phroblemau o ran argaeledd y fflyd. Er bod y prif fesurau perfformiad yn parhau i fod yn is na'r targed, nododd yr aelodau fod perfformiad yn gwella o flwyddyn i flwyddyn, a bod lefelau boddhad cwsmeriaid yn uchel. Trafododd y Bwrdd sut i wneud gweithrediadau'n fwy gwydn, datblygu cynlluniau wrth gefn tymor byr i roi

mwy o sicrwydd i gwsmeriaid, a sicrhau bod effaith tarfiadau ar wasanaethau'n cael eu rhannu'n fwy teg ar draws y rhwydwaith, yn hytrach na bod yr un cymunedau yn cael eu heffeithio dro ar ôl tro. [redacted]

5. Network Rail / Amey Assurance – Sychder a Thymheredd Uchel

Cafodd y Bwrdd sicrwydd ynghylch parodrwydd seilwaith ar gyfer cyfnodau o wres eithafol a sychder. Nododd yr aelodau fod y gofynion arolygu a monitro yn cael eu bodloni, a chroesawyd y dull rhagweithiol o reoli risgiau hysbys, gan gynnwys cyflwr y traciau, rheoli llystyfiant, a rheolaethau hanfodol ar gyfer tymheredd y rheilffyrdd. Nododd y Bwrdd fod cyfnodau estynedig o dywydd gwael yn dod yn fwyfwy arferol fel rhan o'r amodau gweithredu, a chytunwyd fod parhau i ganolbwyntio ar gynllunio ar gyfer gwydnwch yn dal i fod yn hanfodol.

6. Diweddariad Cyllid

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar sefyllfa ariannol y sefydliad a'i berfformiad masnachol ehangach [redacted]

7. Diogelwch

Trafododd y Bwrdd yr Adroddiad Diogelwch a Gwarchodaeth, gan nodi gwelliannau o ran perfformiad mewn perthynas â thresmasu a'r gostyngiad cysylltiedig mewn tarfiadau, gan gydnabod ar yr un pryd yr heriau parhaus sy'n ymwneud ag ymosodiadau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch y gweithlu. [redacted] Ystyriodd y Bwrdd hefyd gyfleoedd i gryfhau diogelwch trwy weithgarwch gweithredol wedi'i dargedu, [redacted] gan nodi'r canlyniadau cadarnhaol a gafwyd o fentrau gorfodi blaenorol. Daeth yr aelodau i'r casgliad y byddai parhau i fuddsoddi mewn mesurau ataliol, gweithio mewn partneriaeth, a rhannu gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau yn bwysig er mwyn cefnogi diogelwch, sicrwydd a gwydnwch gweithredol ar draws y rhwydwaith.

[redacted]

[redacted]

9. Diweddariad Masnachol

Trafododd y Bwrdd berfformiad masnachol, [redacted] afododd yr aelodau'r berthynas uniongyrchol rhwng perfformiad gweithredol a chynhyrchu refeniw, gan gydnabod bod yr achosion o ganslo teithiau, ffurfiannau byr ac argaeledd gwael o ran trenau yn cael effaith uniongyrchol ar incwm a'r galw gan deithwyr. [redacted] ytunodd yr aelodau mai gwella dibynadwyedd gwasanaethau trenau ac argaeledd fflydoedd oedd y ffactor pwysicaf o hyd ar gyfer cefnogi twf refeniw, lleihau costau iawndal a gwella'r sefyllfa ariannol yn gyffredinol. **Cam gweithredu:** Chris Williams i ddatblygu achos busnes dros ddatrysiadau rheoli mynediad a gatiau mewn gorsafoedd allweddol yn ardal Caerdydd lle nad oes gatiau ar hyn o bryd, gan gynnwys asesu manteision refeniw, effeithiau gweithredol, opsiynau technoleg a chostau.

9.1 Diweddariad ar Refeniw Traws Cymru

Nododd y Bwrdd y diweddariad ar refeniw Traws Cymru.

9.2 Strategaeth Twf Marchnata a Phrisiau Tanysgrifiadau

Adolygodd y Bwrdd y cynnydd ar brisiau tanysgrifiadau a chynlluniau teyrngarwch. Cefnogodd yr aelodau'r symudiad tuag at fodel marchnata parhaus, gyda'r nod o gadw cwsmeriaid, cynyddu ymgysylltiad digidol a chreu cyfleoedd ychwanegol drwy bartneriaethau a gwobrau teyrngarwch.

9.3 Gwasanaethau Rheoli Teithiau

Adolygodd y Bwrdd gynlluniau i foderneiddio a digideiddio'r Gwasanaethau Rheoli Teithio, gan nodi cyfleoedd i gynyddu refeniw o deithiau corfforaethol, addysgol a busnes. Croesawodd yr aelodau'r dull gweithredu fesul cam a'r potensial i gryfhau cysylltiadau rhwng busnesau, cynyddu gwerthiannau digidol a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer

twf. **Cam gweithredu:** Chris Williams i gyflwyno adolygiad manylach o gynnig y Gwasanaethau Rheoli Teithio, y strategaeth mynediad i'r farchnad a'r cyfleoedd twf i'r Tîm Arwain Gweithredol i'w drafod ymhellach

10. Diweddariad ar Farchnata

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar weithgarwch marchnata a nododd gynnydd cadarnhaol ar draws ystod o ymgyrchoedd, partneriaethau a mentrau i ddenu cwsmeriaid newydd. Croesawodd yr aelodau'r broses o ddatblygu integreiddiadau archebu sy'n cael eu galluogi gan API gyda phartneriaid allanol, gan gynnwys sefydliadau chwaraeon ac atyniadau, a fyddai'n rhoi mynediad i gynulleidfaoedd newydd ac yn galluogi i gwsmeriaid archebu tocynnau trên fel rhan o becyn ehangach. Trafododd y Bwrdd gyfleoedd i gynyddu nifer y teithiau sy'n cael eu gwneud at ddibenion hamdden, twristiaeth a digwyddiadau drwy bartneriaethau wedi'u targedu, cynlluniau talebau, cynigion teyrngarwch ac ymgyrchoedd i ailennyn diddordeb cwsmeriaid, gan bwysleisio y dylai pob gweithgaredd ddangos enillion clir ar fuddsoddiad drwy gynhyrchu refeniw uniongyrchol, twf cynulleidfa neu gynyddu ystyriaeth o'r brand. Cefnogodd yr aelodau ddatblygiad parhaus sianeli marchnata arloesol a phartneriaethau masnachol er mwyn sicrhau twf cadarnhaol yn nifer y teithwyr.

11. Papurau i'w Nodi

11.1 Diweddariad ar Absenoldeb

Nododd y Bwrdd y diweddariad ar absenoldeb.

12. Unrhyw Fater Arall

Gan nad oedd unrhyw fater arall, diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.